newydd

CADWCH EICH SYSTEMAU GWRESOGI YN GWEITHIO'N DDIOGEL

Dilynwch y canllaw glendid dŵr hwn i atal clefyd y Llengfilwyr

CYFLWYNIAD

Ceir hyd i facteria Legionella yn yr amgylchedd naturiol; fodd bynnag, gyda'r amodau cywir gall Legionella gael cyfle i halogi a thyfu mewn systemau dŵr poeth ac oer. Efallai eich bod chi wedi clywed am glefyd y Llengfilwyr.

Mae clefyd y Llengfilwyr yn ffurf o niwmonia a all fod yn angheuol, ac fe'i hachosir drwy fewnanadlu defnynnau bach o ddŵr halogedig. Ar y daflen hon rydym yn amlinellu rhai mesurau rheoli syml ond effeithiol a fydd yn eich helpu i gadw'ch systemau gwresogi yn gweithio'n ddiogel.

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD

Mae hi'n bwysig bod eich system dŵr poeth yn cael ei gadw'n boeth, bod eich dŵr oer yn cael ei gadw'n oer, a bod y dŵr yn gyffredinol yn cael ei gylchredeg drwy ddefnydd rheolaidd. Mae'n bosib eich bod wedi bod yn yr ysbyty neu ar wyliau, beth bynnag y rheswm, os yw eich eiddo yn wag am 7 diwrnod neu fwy, sicrhewch wrth ddychwelyd bod eich tapiau a'ch cawodydd (heb anghofio unrhyw dapiau allanol) yn cael eu fflysio trwy eu rhedeg am o leiaf 2 funud.

BOELER

Mae hi'r un mor bwysig eich bod yn dweud wrthym os nad yw eich boeler yn gweithio'n iawn, yn enwedig os ydych yn sylwi bod unrhyw weddillion neu afliwiad yn y dŵr sy'n llifo o'ch tapiau. Gallwch roi gwybod i ni drwy anfon neges ar **Fy Newydd,** ffonio **0303 040 1998** neu anfon neges destun i **07422 128780**

Gofynnwn i chi beidio ac ymyrryd â'r gosodiadau ar eich boeler neu system dŵr poeth. Yn dilyn eich gwasanaeth gwresogi blynyddol, bydd y dŵr poeth wedi ei osod fel bod y dŵr yn cael ei gynhesu i 60°C. Byddwch yn ofalus wrth weithredu eich tapiau dŵr poeth a gwiriwch fod y tymheredd ar lefel gyfforddus cyn ymolchi neu ddefnyddio'r bath.

CAWODYDD



Os oes gennych chi gawod, mae hi'n bwysig eich bod yn glanhau pen y gawod a'r bibell ddŵr bob 3 mis.

Y dull traddodiadol yw:

1. Dadsgriwio pen y gawod a'r bibell a'u gosod mewn bag plastig
2. Arllwys hydoddiant o un-rhan finegr gwyn i un-rhan dŵr a'i adael am 3 awr (gallwch hefyd ddefnyddio unrhyw ddad-galchydd cyffredinol)
3. Rinsiwch pen y gawod a'r bibell yn drwyadl

Bydd hyn yn cael gwared ag unrhyw galch a gwaddod sydd fel arall yn darparu'r amgylchedd iawn i Legionella dyfu.

CASGLU DŴR GLAW

Os oes gennych gasgen casglu dŵr glaw, peidiwch â chysylltu unrhyw allfeydd cynhyrchu chwistrell, er enghraifft golchydd pwysedd neu bibellau chwistrellu. Bydd hyn yn cynhyrchu aerosol o ddŵr a all gynnwys bacteria legionella.

Cysylltwch â ni os oes gennych chi unrhyw bryderon pellach:

www.newydd.co.uk

ymholiadau@newydd.co.uk

0303 040 1998

07422 128780